***Statws** This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2020 Rhif 220 (Cy. 49)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2020

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *4 Mawrth 2020* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Mawrth 2020* |
| *Yn dod i rym - -* | *1 Ebrill 2020* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 16(1)(e), 17(1) a (2), 26(3) ac 48(1) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**1**), ac a freiniwyd bellach ynddynt hwy(**2**), a chan baragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**3**).

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus i gyfeiriadau at Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr(**4**) ac at Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/775 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Erthygl 26(3) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, o ran y rheolau ar gyfer dangos gwlad tarddiad neu darddle'r prif gynhwysyn mewn bwyd(**5**) a fewnosodir yn Rheoliadau

(**1**) 1990 p. 16; diwygiwyd adran 6(4) gan baragraff 6 o Atodlen 9 i Ddeddf Dadreoleiddio a Chontractio Allan 1994 (p. 40), paragraff 10(1) a (3) o Atodlen 5 ac Atodlen 6 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28) ("Deddf 1999") ac O.S. 2002/794. Diwygiwyd adran 16(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 17(1) gan baragraffau 8 a 12(a) o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 a chan O.S. 2011/1043. Diwygiwyd adran 17(2) gan baragraffau 8 a 12(b) o Atodlen 5 i Ddeddf 1999 a chan O.S. 2011/1043. Diddymwyd adran 26(3) yn rhannol gan Atodlen 6 i Ddeddf 1999. Diwygiwyd adran 48(1) gan baragraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999.

(**2**) Mae'r swyddogaethau hynny a oedd gynt yn arferadwy gan "the Ministers" bellach yn arferadwy o ran Lloegr gan yr Ysgrifennydd Gwladol yn unol â pharagraff 8 o Atodlen 5 i Ddeddf 1999. Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**3**) 1972 p. 68. Mae Deddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 ("Deddf 1972") wedi ei diddymu gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p. 16) ("Deddf 2018") gan gael effaith o'r diwrnod ymadael ("exit day"). Mae "exit day" wedi ei ddiffinio yn adran 20 o Ddeddf 2018 fel 31 Ionawr 2020 am 11pm. Er gwaethaf y diddymiad hwnnw mae Deddf 1972 yn parhau i gael effaith gydag addasiadau hyd ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu ("IP completion day"), yn rhinwedd adran 1A o Ddeddf 2018. Mewnosodwyd adran 1A gan adran 1 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p. 1) ("Deddf 2020"). Mae "IP completion day" wedi ei ddiffinio yn adran 1A fel 31 Rhagfyr 2020 am 11pm (yr ystyr a roddir yn adran 39 o Ddeddf 2020). Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 i Ddeddf 1972 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 ac fe'i diwygiwyd gan Ran 1 o'r Atodlen i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 ac O.S. 2007/1388.

(**4**) OJ Rhif L 304, 22.11.2001. t. 18, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2015/2283, OJ Rhif L 327, 11.12.2015, t. 1.

(**5**) OJ Rhif L 131, 29.05.2018, t. 8.

Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014(**6**), gael eu dehongli fel cyfeiriadau at y Rheoliadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd.

Mae Gweinidogion Cymru wedi rhoi sylw i gyngor perthnasol a roddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn unol ag adran 48(4A) o Ddeddf Diogelwch Bwyd 1990(**7**).

Ymgynghorwyd yn agored ac yn dryloyw â'r cyhoedd wrth lunio a gwerthuso'r Rheoliadau hyn fel sy'n ofynnol gan Erthygl 9 o Reoliad (EC) Rhif 178/2002 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n gosod egwyddorion cyffredinol a gofynion cyfraith bwyd, yn sefydlu Awdurdod Diogelwch Bwyd Ewrop ac yn gosod gweithdrefnau o ran materion diogelwch bwyd(**8**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) (Diwygio) 2020.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 1 Ebrill 2020.

**Diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014**

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 5 (hysbysiadau gwella – darpariaethau penodedig), ar ôl Rhan 4 mewnosoder—

## "RHAN 5

### Y ddarpariaeth yn FIC y caniateir i hysbysiad gwella gael ei gyflwyno mewn perthynas â hi ar ac ar ôl 1 Ebrill 2020.

| *Y ddarpariaeth yn FIC* | *Y darpariaethau sydd i'w darllen gyda'r ddarpariaeth yn FIC* |
|---|---|
| Erthygl 26(3) (dangosiad gorfodol o wlad tarddiad neu darddle'r prif gynhwysyn pan fo'n wahanol i wlad tarddiad neu darddle'r bwyd) | Erthyglau 1(3) a 6 o FIC, a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/775(**9**) o ran y rheolau ar gyfer dangos gwlad tarddiad neu darddle prif gynhwysyn y bwyd fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd." |

*Vaughan Gething*
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

4 Mawrth 2020

(**6**) O.S. 2014/2303 (Cy. 227) fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2016/664 (Cy. 181). Mae wedi ei ddiwygio'n rhagolygol gan O.S. 2019/1418 (Cy. 253) o ddiwrnod cwblhau'r cyfnod gweithredu. Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.

(**7**) Mewnosodwyd adran 48(4A) gan baragraff 21 o Atodlen 5 i Ddeddf Safonau Bwyd 1999 (p. 28). Trosglwyddwyd y swyddogaethau hynny a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O. S. 1999/672 fel y'i darllenir gydag adran 40(3) o Ddeddf 1999, a'u trosglwyddo wedi hynny i Weinidogion Cymru gan baragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(**8**) OJ Rhif L 31, 1.2.2002, t. 1, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) 2019/1243, OJ Rhif L 198, 25.07.2019, t. 241.

(**9**) OJ Rhif L 131, 29.05.2018, t. 8.

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Gwybodaeth am Fwyd (Cymru) 2014 (O.S. 2014/2303 (Cy. 227)) ("Rheoliadau 2014"). Maent yn gwneud darpariaeth i weithredu a gorfodi, yng Nghymru, Erthygl 26(3) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr fel y'i darllenir gyda Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/775 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Erthygl 26(3) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ynghylch darparu gwybodaeth am fwyd i ddefnyddwyr, o ran y rheolau ar gyfer dangos gwlad tarddiad neu darddle'r prif gynhwysyn mewn bwyd.

Mae Erthygl 26(3) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 yn gosod gofynion i ddarparu gwybodaeth benodol o ran gwlad tarddiad neu darddle'r prif gynhwysyn mewn bwyd pan fo'n wahanol i wlad tarddiad neu darddle'r bwyd. Mae Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/775 yn gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Erthygl 26(3).

Mae rheoliad 2 o'r Rheoliadau hyn yn mewnosod Rhan 5 newydd yn Atodlen 5 i Reoliadau 2014. Mae hyn yn ychwanegu Erthygl 26(3) o Reoliad (EU) Rhif 1169/2011 fel y'i darllenir gyda Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) 2018/775 at y rhestr o ddarpariaethau'r UE y mae'r darpariaethau gorfodi o dan Reoliad 12 o'r Reoliadau 2014 yn gymwys iddynt.

Mae'r darpariaethau hyn, fel y'u diwygiwyd, yn galluogi hysbysiad gwella i gael ei gyflwyno sy'n ei gwneud yn ofynnol cydymffurfio ag Erthygl 26(3) a darpariaethau Rheoliad 2018/775. Mae methu â chydymffurfio â'r hysbysiad gwella yn drosedd. Yn ogystal â hynny, mae gan yr awdurdodau gorfodi bwerau mynediad ac arolygu (gan gynnwys ymafael mewn cofnodion) at ddibenion gorfodi Erthygl 26(3) fel y'i darllenir gyda darpariaethau Rheoliad 2018/775.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.